

# Ysgol Pentrefoelas



## POLISI LLYTHRENNEDD

Dyddiad Mai 2016

### RHESYMEG

- Credwn yn Ysgol Pentrefoelas fod llythrennedd yn bwysig oherwydd y mae'n galluogi disgyblion i ymgymraedd at y pynciau a ddysgir yn yr ysgol, eu galluogi i ddarllen er mwyn pleser a gwybodaeth, ac i gyfathrebu'n llwyddiannus. Y mae safon uchel o lythrennedd yn effeithio'n adeiladol ar yr hyn y gall disgyblion ei gyflawni, gan gynyddu eu hunanbarch. Fel yn unrhyw gymdeithas dechnolegol flaengar, ein nôd yw galluogi unigolion i ddefnyddio iaith er mwyn gwella eu gallu i feddwl, creu, a chwestiynu ac felly cyfranogi yn llawnach mewn cymdeithas.
- Trwy feithrin medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, anela'r ysgol i sicrhau cynnydd parhaus tuag at y safonau uchaf ymhlith y disgyblion mewn mynegiant a chyfathrebiaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig. Rydym yn ysgol Pentrefoelas yn deall bod angen safonau uchel o lythrennedd i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r hyn a ddysgant, a thrwy hynny godi safonau ar draws y cwricwlwm.
- Cyfrifoldeb ar y cyd yw llythrennedd ac annogir cymorthyddion a holl staff yr ysgol i feithrin a datblygu sgiliau llythrennedd uchel o fewn yr iaith Gymraeg a Saesneg.

### AMCANION

Amcanion y Polisi Llythrennedd yw sicrhau bod:

- a) athrawon ysgol Pentrefoelas yn ymwybodol o'u rôl mewn hyrwyddo medrau llythrennedd yn ôl y Fframwaith Cenedlaethol
- b) athrawon Ysgol Pentrefoelas yn deall sut mae eu harferion dyddiol yn helpu i ddatblygu medrau llythrennedd
- c) strategaeth ysgol-gyfan yn bodoli i hyrwyddo llythrennedd
- ch) safonau addysgol yn cael eu codi ar draws y cwricwlwm.

### CANLLAWIAU

**Bydd pob disgybl yn:**

- a) cael arfarniad rheolaidd ar agweddau o'u medrau llythrennedd
- b) cael mynediant i gefnogaeth ar gyfer datblygu llythrennedd - drwy lwybrau dysgu iaith, matiau iaith, poster/ arddangosfeydd addas

c) cael profiad o amrywiaeth o gyfleoedd o fewn pynciau sy' n helpu datblygu llythrennedd yn uniongyrchol

ch) cael arweiniad ar sut i wella medrau llythrennedd ym mhob pwnc.

**Bydd pob athro yn:**

a) derbyn arweiniad neu hvfforddiant ar sut y gall gwella medrau iaith godi safonau yn y pwnc

b) gweithredu canllawiau y Cyfnod Sylfaen a CA2 ar ddatblygu llythrennedd

c) gweithredu polisi llythrennedd yr ysgol ac yn marcio/asesu iaith o fewn canllawiau'r fframwaith

ch) gweithredu mentrau ysgol-gyfan ar gyfer datblygu llythrennedd.

d) mabwysiadu polisi ar gyfer datblygu llythrennedd wedi ei seilio ar bolisi'r ysgol

dd) adnabod cvfleoedd yn y meysydd CS a chwricwlwm CA2 ar gyfer datblygu elfennau llythrennedd o fewn y maes/pwnc/thema

e) ymgorffori gweithgareddau dosbarth sv'n hyrwyddo datblygiad llythrennedd

f) darparu arweiniad i ddisgyblion ar sut i wneud cynnydd

**Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am:**

a) adolygu strategaethau datblygu llythrennedd yr ysgol yn rheolaidd

b) adrodd vn rheolaidd ar ddatblygiad llythrennedd o fewn yr ysgol

c) gymryd camau pellach i wella gallu'r vsgol i wella medrau llythrennedd ei disgyblion

Trafodwyd a chytunwyd ar y polisi hwn mewn cyfarfod o'r Corff Llywodraethu:

**Dyddiad: Mai 2016**

**Cadeirydd: Paul Williams**

**Pennaeth:** Ann E. Jones

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol.